

CYNGOR CYMUNED EGLWYS BACH - COFNODION CYFARFOD 02/03/2015

PRESENNOL: Cynghorwyr: Arthur Williams, Ceri Leeder, Katherine Himsworth, Wendy Martin, Richard Newsham, Austin Roberts, Gwyn Williams, John Lloyd Williams.

1. **CROESO:** Croesawodd yr Is-gadeirydd, Ceri Leeder, bawb i'r cyfarfod.
2. **YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Dawn Williams, Mike Rayner.
3. **DATGAN DIDDORDEB:** Dim.
4. **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF:** nodwyd cywriad i gofnodion 02/02/15 – nodwyd nad oedd y Cyng. Ceri Leeder wedi cael y mapiau gan Ms Rebecca Jackson. Roedd Ms Jackson wedi eu pasio'n uniongyrchol i Mrs Jutta Lorenz-Kubis. Cafwyd gweddill y cofnodion yn gywir ac fe'u harwyddwyd.
5. **MATERION YN CODI O'R COFNODION:**

Llwybrau Cyhoeddus - nid oes modd cael copi papur arall o'r mapiau gan y Sir. Cytunodd y Cyng. Ceri Leeder i gael y mapiau gan Mrs Jutta Lorenz-Kubis er mwyn gweld os oes modd gwneud copi ohonynt.

Gwifrau ffôn ar hyd Llwybr Bryn Hir – y gwaith wedi ei gwblhau.

Logo Cyngor Cymuned - yn cael ei ddatblygu.

Plannu Coeden i ddathlu 100 mlynedd Sefydliad y W.I. - nododd y Cyng. Ceri Leeder ei bod yn aros i glywed gan Mrs Eirwen Kenrick. Cytunwyd y dylai'r sefydliad gael amcan bris o gostau a chaiff y mater o gyfraniad ei ystyried a'i drafod yn briodol.

Ymunodd y Cyng. Austin Roberts a'r cyfarfod.

Siop y Llan - dim datblygiad pellach - y Cyng. Mike Rayner i gysylltu â'r perchennog.

Sgaffaldiau Tŷ Llundain - dim datblygiad pellach - y Clerc i ddilyn y mater i fyny gyda'r Sir.

Pwmp Dwr y Pentref - ni chafwyd dim awgrymiadau gan drigolion lleol am leoliad addas i'r pwmp. Cytunodd y Cyng. Austin Roberts, Richard Newsham, Gwyn Williams a John Lloyd Williams i edrych os oes lleoliad addas yn y fynwent. Diolchwyd yn fawr iddynt. Yn ogystal, cynigiodd y Cyng. Austin Roberts i wneud castin carreg o amgylch y pwmp am ddim. Diolchwyd iddo am ei gynnig hael.

Ymunodd y Cyng. Arthur Williams a'r cyfarfod.

Materion Ffyrdd - Ffordd Llyn Syberri – y tyllau i gael eu llenwi yn fuan a bydd mwy o waith glanhau yn cael ei wneud yn y dyfodol agos;

Ffordd Penrhud - y gwaith ffosio i gael ei wneud yn fuan a'r gwaith sgubo wedi hynny;

Ffordd Bryn y Frân - bydd y pryderon am y ffens cyn cyrraedd Cefn Gwyn yn cael ei anfon i'r Adran Traffic. Y tirlfeddiannwr sy'n gyfrifol am drwsio'r ffens bresennol.

Mewn ymateb i sylwadau'r Cyngor Sir am ffens cyn cyrraedd Cefn Gwyn, nodwyd bod ffens y tirlfeddiannwr ochr draw i'r dibyn. Yn ogystal, bu polion du a gwyn ar y safle yn y gorffennol i ddynodi perygl y dibyn serth. Y Clerc i hysbysu'r Sir o'r pwyntiau hyn.

Clwb Plant - y Cyng. Wendy Martin wedi cyfarfod a Swyddog o'r Fenter Iaith ac maent yn awyddus iawn i ddod i gynnal gweithgareddau yn y pentref. Byddai'n agored i blant 5 oed i fyny; o 9:30 - 2:30 o'r gloch; £5 y plentyn; dim uchafswm niferoedd; darperir nifer o staff yn unol â nifer y plant; os oes digon o arian, telir am yrru adeilad allan o'r incwm; fodlon cynorthwyo i gael grant os yn berthnasol; clwb rhagweithiol iawn.

Trafodwyd a chytunwyd i wahodd Ms Esyllt Tudur i'r cyfarfod nesaf. Y Cyng. Wendy Martin i gysylltu â hi, a diolchwyd i'r Cyng. Martin am ei holl waith.

Clwb Ffit Gwledig - nododd y Cyng. Wendy Martin ei bod yn cyfarfod a swyddog o'r Sir yn fuan i edrych ar y posibiladau. Mynegwyd bod nifer o drigolion wedi dangos diddordeb mewn cael clwb ffit yn y pentref. Diolchwyd i'r Cyng. Martin am ei gwaith.

Ffordd Bryn Hir am Llety - cafwyd e-bost gan y Cyng. Mike Rayner yn nodi bod y ffordd yn annosbarthedig ac felly mae gan berson hawl i deithio mewn unrhyw fodur ar ei hyd.

6. **CEISIADAU CYNLLUNIO:** Dim

Penderfyniad y Sir ar Geisiadau Cynllunio: Dim.

7. **MATERION PENODOL I'W PENDERFYNU:**

Cyfethol Cynghorydd newydd - cafwyd 2 ymgais.

Drwy bleidlais gudd, cyfetholwyd Mr Gwyn M Jones, Llecyn, Trofath.

Gorchymyn Trafnidiaeth Unffordd Ffordd Penrhyd - nodwyd bod pryderon y Cyngor eisoes wedi eu hanfon i'r Cyngor Sir. Cytunwyd i geisio cadarnhad ysgrifenedig gan y Sir y bydd manau pasio yn cael eu creu ar hyd y ffordd o'r drofa uchaf i lawr at Meddiant Isaf.

Rhoddion - Seiat y Pentan = £100 tuag at eu trip blynyddol.

Ysgol Eglwys Bach = £600 i brynu glieniaduron newydd i'r ysgol.

Aelodaeth 'Un Llais Cymru' 2015-16 - cytunwyd i beidio ag ymaelodi.

Taliadau - Mrs Sue Hayward, Glanhau Toiledau - £98.00

Mrs Einir Jones – cyflog a chostau'r Clerc ar gyfer mis Chwefror - £144.99

Cyllid a Thollau ei Mawrhydi (Treth ar gyflog mis Chwefror y Clerc) - £30.00.

8. **GOHEBIAETH:** derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:

- Papur Gwyn Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol [Llyw. Cymru];
- Ymgynghoriad – CDLI17 – Canllaw Cynllunio Atodol Datblygu Tyrbinau Gwynt ar y Tir [CBSC].

9. **UNRHYW FATER ARALL:**

Lori goed drwy'r pentref - cafwyd achos arall o lori yn mynd drwy'r pentref yn ystod amser brig yr ysgol. Y Clerc i ddilyn y mater i fyny gydag Ystâd Bodnant.

Cyfarfod Arbennig o Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned - i drafod newidiadau i Gynghorau - mynychodd y Cyng. Katherine Himsworth a'r Clerc. Gweler munudau'r cyfarfod a anfonwyd gan y Clerc, ynghyd a chrynodeb y WLGA o'r Papur Gwyn a anfonwyd gan y Clerc. Bydd map o siroedd Cymru yn cael ei gyhoeddi yng Ngorffennaf 2015 ac anogwyd Cynghorau Cymuned i ymateb i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn.

Diolchwyd i'r Cyng. Katherine Himsworth am fynychu'r cyfarfod a chytunwyd y dylai pawb gael golwg ar y Papur Gwyn gan y bydd angen cwblhau'r arolwg ar ran y Cyngor Cymuned yn y cyfarfod nesaf.

Y Parc - nododd y Cyng. Wendy Martin ei bod wedi cysylltu â'r Sir gan fod Llyw. Cymru yn dosbarthu arian i Gynghorau er mwyn datblygu parciau. Bydd y Sir yn ystyried y cais.

Materion Ffyrdd - y canlynol angen sylw:

Ffordd Llyn Syberi - tyllau angen eu llenwi ger Meddiant Uchaf;

Ffordd Penrhyd - tyllau angen eu llenwi o Tŷ Gwyn i waelod allt Llyn Syberi;

Ffordd Eglwys Bach - dwr yn casglu ar y tro ger 'Glanford';

Ffordd Gyffylog - angen ei glanhau.

Tir ochr arall i'r siop - angen polion newydd ar y ffens. Cynigiodd y Cyng. Richard Newsham a'r Cyng. Austin Roberts i wneud y gwaith. Diolchwyd yn fawr iddynt.

Troli bocsys ailgylchu/biniau - nodwyd bod rhai o drigolion oedrannus y pentref yn profi anhawster wrth geisio cael y bocsys/biniau i'r man casglu. Cafwyd ar ddeall bod modd i'r trigolion hynny gysylltu â'r Sir yn uniongyrchol i wneud trefniadau priodol. Y Clerc i geisio gwybodaeth gan y Sir.

Ceir sgrap Sir Conwy - nodwyd bod H L Motors, Cyffordd Llandudno ac Arch Motors, Llandudno yn cau. Y Clerc i geisio gwybodaeth gan y Sir ynglŷn â threfniadau'r dyfodol parthed ceir sgrap.

Newid i ofal mamolaeth ymgynghorol Ysbyty Glan Clwyd - cytunwyd i ysgrifennu llythyr yn mynegi pryder am y sefyllfa.

10. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF:** nos Fawrth 07/04/2015 am 7:30 o'r gloch.